OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2017 Rhif 861 (Cy. 210)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Glanconwy i Forfa Conwy, Bwrdeistref Sirol Conwy) (Terfyn Cyflymder 70 mya Dros Dro) 2017

*Gwnaed* *29 Awst 2017*

*Yn dod i rym* *1 Medi 2017*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd yr A55 Caer i Fangor, wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd y tebygolrwydd o berygl i'r cyhoedd.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Medi 2017 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Glanconwy i Forfa Conwy, Bwrdeistref Sirol Conwy) (Terfyn Cyflymder 70 mya Dros Dro) 2017.

**2.** Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "y gefnffordd" *("the trunk road")* yw'r darn o Gefnffordd yr A55 Caer i Fangor ym Mwrdeistref Sirol Conwy sy'n ymestyn o bwynt 80 o fetrau i'r dwyrain o ganolbwynt Cylchfan Cyfnewidfa Glanconwy (Cyffordd 19) hyd at bwynt 200 o fetrau i'r gorllewin o linell ganol y

(**1**) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672 erthygl 2 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

bont i Forfa Conwy yng Nghyfnewidfa Morfa Conwy (Cyffordd 17).

### Terfyn Cyflymder

**3.** Ni chaiff neb beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 70 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd

### Ataliadau Dros Dro

**4.** Atelir y terfyn cyflymder a bennir yn erthygl 3 os bydd terfyn is yn gymwys yn rhinwedd Gorchymyn traffig dros dro ar wahân.

**5.** Mae darpariaethau erthygl 13 o Reoliadau Ffordd Arbennig (Glanconwy - Morfa Conwy) 1990(**2**) drwy hyn wedi eu hatal.

### Cymhwyso

**6.** Ni fydd y cyfyngiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn ei dangos

### Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

**7.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 29 Awst 2017

*Nina Ley*
Pennaeth Yr Uned Fusnes, Rheoli'r Rhwydwaith
Llywodraeth Cymru

(**2**) O.S. 1990/1586